

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – HYDREF 2021

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY (ATODLEN B)

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. CYFRIFON ARIANNOL HYD AT 30AIN MEDI AC AMCANESTYNIADAU AR GYFER BLWYDDYN ARIANNOL 2021/22

Ymhellach i gofnod rhif 40 cyfarfod y Cyngor ar 21ain Gorffennaf 2021, derbyn a chydabod adroddiad cynnydd ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi yn amgaeedig) yn dangos perfformiad o gymharu â'r gyllideb.

5. YMGYNGHORIAD: CYNGOR SIR DDINBYCH – DEDDF PRIFFYRDD 1980 – CYNNIG I GAU RHAN O'R BRIFFORDD – ALI YNG NGHEFN EDWARD HENRY STREET, Y RHYL

Derbyn gohebiaeth (copi yn amgaeedig) a phenderfynu ar ymateb y Cyngor mewn perthynas â chynnig i gau ali yng nghefn Edward Henry Street.

6. YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GWARCHOD Y GLANNAU CANOL PRESTATYN

Ymhellach i gyfarfod ar y cyd gydag Aelodau Ardal y Rhyl ar 15fed Hydref 2021, rhoi hysbysiad ymgynghoriad cyn gwneud cais (copi yn amgaeedig) mewn perthynas â'r cynnig uchod a phenderfynu ar ymateb y Cyngor Tref.

7. CYNGOR SIR DDINBYCH – CYNNIG I BRYNU CRIBIN TRAETH AR Y CYD

Derbyn gohebiaeth (copi yn amgaeedig) a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn am farn y Cyngor Tref ar brynu ar y cyd (gyda Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Tref Prestatyn) Gribin Traeth i gynorthwyo gyda chael gwared â sbwriel ar draethau'r Rhyl a Phrestatyn.

8. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod wrth hystyried yr eitemau canlynol, am resymau cyfrinachedd.

9. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL

Derbyn a phenderfynu ar gais gan unigolyn lleol i'r cyngor ystyried darparu cymorth ariannol i gynorthwyo gyda chyhoeddi ei lyfr newydd.

10. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.